



## Newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion

Dogfen Ymgynghori

Os oes angen copi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol  
arnoch, cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Addysg ar 01686  
611553, neu anfonwch e-bost at  
[transforming.education@powys.gov.uk](mailto:transforming.education@powys.gov.uk).

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion

## Cynnwys

<b>TROSOLWG .....</b>	<b>3</b>
<b>RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID.....</b>	<b>5</b>
1. CEFNDIR .....	5
2. Y CYD-DESTUN STRATEGOL .....	7
3. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL BRO CAEREINION .....	12
4. MANTEISION DWYIEITHRWYDD.....	15
5. OPSIYNAU A GAFODD EU HYSTYRIED .....	16
6. OPSIYNAU GWEITHREDU .....	17
7. ADNABOD YR OPSIWN A FFEFRIR .....	19
<b>RHAN B – Y CYNNIG .....</b>	<b>21</b>
9. TROSOLWG .....	21
10. RHESYMAU DROS Y CYNNIG .....	21
11. MANTEISION AC ANFANTEISION .....	22
12. RISGIAU .....	23
13. AMSERLEN GWEITHREDU POSIBL .....	23
<b>RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG .....</b>	<b>25</b>
14. EFFAITH AR DDISGYBLION.....	25
15. EFFAITH AR STAFF .....	27
16. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU .....	28
17. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG .....	28
18. YR ANGEN AM LEOEDD AC EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGyrCHEDD YSGOLION.....	31
19. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL .....	34
20. FFACTORAU I'W HYSTYRIED MEWN PERTHYNAS Â CHYNIGION I NEWID CYFRWNG IAITH .....	36
21. EFFAITH AR DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH.....	37
22. YSTYRIAETHAU ERAILL .....	39
23. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB, CYMUNED A'R GYMRAEG .....	41
<b>RHAN D – MANYLION YMGYNGHORI.....</b>	<b>44</b>
<b>ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL.....</b>	<b>47</b>
<b>ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU LLWYDDIANT ALLWEDDOL – OPSIYNAU IAITH .....</b>	<b>66</b>
<b>ATODIAD C – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU LLWYDDIANT ALLWEDDOL – OPSIYNAU GWEITHREDU .....</b>	<b>73</b>
<b>ATODIAD D – FFURFLEN YMATEB.....</b>	<b>77</b>

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion

## TROSOLWG

### 1. Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

### 2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan:

<https://cy.powys.gov.uk/article/14817/Ysgol-Bro-Caereinion>

Mae copi o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn **30 Tachwedd 2023**.

### 3. Manylion cyswllt

Dylid anfon yr holl ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Addysg  
Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5LG

E-bost: [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)

Ffôn: 01686 611553

### 4. Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio a fydd yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ystyried a ydynt am fwrw ymlaen â'r opsiwn a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ai peidio. Disgwylir i hyn ddigwydd yn gynnar yn 2024.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, a byddai cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau. Yna byddai angen i'r Cabinet ystyried adroddiad arall sy'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.

## RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar y cynnig canlynol:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

### 1. CEFNDIR

Sefydlwyd Ysgol Bro Caereinion ym mis Medi 2022 yn dilyn uno Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion. Mae'n ysgol dwy ffrwd 4-18 sy'n gweithredu o adeiladau'r ddwy ysgol flaenorol, yn Llanfair Caereinion yng Ngogledd Powys.

Mae cyfnod cynradd yr ysgol yn gwasanaethu tref Llanfair Caereinion yn bennaf, tra bod y cyfnod uwchradd yn gwasanaethu dalgylch ehangach. Yn benodol, darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yr ysgol fu'r brif ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhan hon o Ogledd Powys yn hanesyddol, gan wasanaethu trefi'r Drenewydd a'r Trallwng yn ogystal â dalgylch traddodiadol Llanfair Caereinion.

Mae'r canlynol yn grynodeb o ddata allweddol yn ymwneud ag Ysgol Bro Caereinion:

	Math o Ysgol	Categori laith	Nifer derbyn <sup>1</sup>	Ysgol Wledig? <sup>2</sup>
<b>Ysgol Bro Caereinion</b>	Ysgol Gynradd Gymunedol (Pob-oed)  Adeilad ysgol sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys	Dwy ffrwd	Cyfnod cynradd: 27  Cyfnod uwchradd: 114	Na

Mae niferoedd disgyblion presennol Ysgol Bro Caereinion fel a ganlyn<sup>3</sup>:

	R	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	12	7	11	7	14	11	12	42	35	30	36	40	14	21	292

<sup>1</sup> Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn Cyngor Sir Powys 2024-25

<sup>2</sup> Mae Atodiad F o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)

(<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>) yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig', y mae'r 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddynt.

<sup>3</sup> Darparwyd gan yr ysgol – 6 Medi 2023

<b>cyfrwng Saesneg</b>	0	7	6	8	5	8	16	25	43	45	35	38	13	8	257
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>	<b>14</b>	<b>17</b>	<b>15</b>	<b>19</b>	<b>19</b>	<b>28</b>	<b>67</b>	<b>78</b>	<b>75</b>	<b>71</b>	<b>78</b>	<b>27</b>	<b>29</b>	<b>549</b>

Pan sefydlwyd Ysgol Bro Caereinion, gwnaed ymrwymiad i symud yr ysgol ar hyd y continwmm iaith yn y dyfodol, i ddiwallu'r dyheadau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor i ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig ar gyfer dysgwyr yn yr ardal, ac i gyflawni'r amcan a nodir yn Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys i 'wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol' drwy 'symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith'.

Ers i'r Cyngor gynnal y broses statudol i sefydlu Ysgol Bro Caereinion, bu gostyngiad mewn disgyblion cyfrwng Saesneg yn nalgylch yr ysgol, a fyddai'n newid cyfansoddiad Ysgol Bro Caereinion yn sylweddol yn y dyfodol. Mae'r ysgol wedi cydnabod hyn, ac yn ddiweddar mae wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn i ystyriaeth gael ei roi i gategori iaith yr ysgol yn y dyfodol.

I wneud hyn, mae'r Cyngor wedi archwilio opsiynau mewn perthynas â chategori iaith yr ysgol yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys y camau canlynol:

- Trafodaethau cychwynnol gyda chynrychiolwyr Ysgol Bro Caereinion
- Ymarfer arfarnu opsiynau
- Arfarniad Opsiynau a ystyriwyd ac a gytunwyd gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Addysg
- Argymhelliad a gafodd ei ystyried a'i gytuno gan y Cabinet

Ar 26 Medi 2023, cytunodd Cabinet y cyngor i ddechrau ymgynghori ar yr argymhelliad canlynol:

*'Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.*

*Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.'*

## 2. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

### 2.1 CYD-DESTUN POLISI

#### 2.1.1 Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys

Yn dilyn yr arolygiad o Wasanaethau Addysg Powys a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod haf 2019, cynhaliodd y Cyngor adolygiad strategol o ysgolion yn ystod 2019-20, a arweiniodd at ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys. Datblygwyd y strategaeth yn dilyn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ac fe'i cymeradwywyd ym mis Ebrill 2020, cyn cael ei diweddarau yn dilyn etholiadau'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2022, a'i hail-lansio ym mis Gorffennaf 2022.

Mae'r strategaeth yn nodi Datganiad Gweledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol a fydd yn sail i waith y Cyngor i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Datganiad Gweledigaeth fel a ganlyn:

***Bydd holl blant a phobl ifanc Powys yn derbyn addysg ysbrydoledig o ansawdd uchel i'w helpu i ennill y wybodaeth, sgiliau a'r nodweddion i fod yn bobl iach, economaidd gynhyrchiol sy'n gymdeithasol a byd-eang gyfrifol ac yn gallu gwireddu eu dyheadau personol yng Nghymru'r 21ain ganrif.***

Yn ogystal, mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o nodau ac amcanion i lunio gwaith y Cyngor i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf. Un o'r Nodau Strategol yw 'gwella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol'. O fewn y nod hwn, mae'r Strategaeth yn nodi Amcan Strategol i 'Symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith.'

#### 2.1.2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor ar gyfer 2022-2032 ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022. Paratowyd y Cynllun yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodi cynlluniau'r Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg ym Mhowys dros y 10 mlynedd nesaf, gyda'r nod o gynyddu nifer y disgyblion o Bowys sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r CSCA yn cynnwys trosolwg o'r heriau wrth ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg teg ym Mhowys, fel yr amlinellir yn y Weledigaeth ar gyfer Datblygu Dysgwyr Dwyieithog Llawn ym Mhowys, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020:

- Nid oes gan bob rhan o Bowys fynediad hawdd i addysg gynradd neu uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg – ar hyn o bryd does dim darpariaeth yn ardaloedd Llanandras, Crughywel na Gwernyfed.
- Nid yw llawer o ysgolion sy'n darparu dull dwy-ffrwd yn darparu digon o'u cwricwlwm yn y Gymraeg i fodloni eu dysgwyr. Mae'r ddarpariaeth yn anghyson, ac yn anghyfartal mewn gormod o'r ysgolion uwchradd. Mae'n

gyffredin i lai na hanner y cwricwlwm fod ar gael yn eu dewis iaith i ddysgwyr y ffrwd Gymraeg mewn addysg uwchradd o flwyddyn 7.

- Mae'r dewis o bynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd yn llai wrth i'r dysgwr fynd yn hŷn, ac ar ôl 14 mae'r ddarpariaeth yn wael iawn neu ddim yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys diffygion yn y ddarpariaeth gan y darparwr Addysg Bellach. Mewn rhai ffrydiau Cymraeg uwchradd, mae llai na 5 pwnc TGAU yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn un achos dim ond un cwrs di-iaith sy'n cael ei ddysgu yn y Gymraeg.
- Mae tystiolaeth bod rhai rhieni ym Mhowys yn osgoi dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg am eu bod yn pryderu y bydd y cyfleoedd sydd ar gael i'w plentyn o fewn yr awdurdod yn gyfyngedig.
- Ar adeg pan fo addysg ddwyieithog/Cymraeg wedi tyfu ledled Cymru ac yn aml mae'n sector sy'n cael ei arddangos mewn siroedd eraill, mae Powys wedi bod yn ddisymud, ac mewn rhai dangosyddion allweddol mae'r awdurdod lleol wedi bod yn mynd yn ôl. Mae hyn wedi digwydd er gwaethaf ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae gan Bowys ganran lai o'i phlant yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth ehangach. Y gred yw mai dyma'r unig awdurdod yng Nghymru lle mae hyn yn wir.

Mae'r CSCA yn cynnwys ymrwymiad i weithredu rhaglen o newid trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r heriau hyn a gwella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, er mwyn cynyddu canran disgyblion Powys sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, i gynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod mwy o rieni a theuluoedd yn ymwybodol o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd o'u genedigaeth, yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda llwybrau dilyniant clir drwy pob cyfnod allweddol o addysg.
- Sicrhau bod mynediad i ddarpariaeth gynradd a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ym mhob un o'r 13 ardal ym Mhowys drwy:
  - Sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd (Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin)
  - Cefnogi darparwyr blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg/dwyieithog i symud ar hyd y continwmm iaith
  - Sefydlu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd
  - Cefnogi ysgolion cynradd dwy ffrwd/cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwmm iaith fel y gallant ddarparu addysg drochi cyfrwng Cymraeg tan eu bod yn saith neu unarddeg oed
- Sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf 3 ardal ym Mhowys. Yng nghyd-destun 'Canllawiau ar gategorïau ysgolion Llywodraeth Cymru yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, diffinnir hyn fel darpariaeth sy'n bodloni'r diffiniad ar gyfer ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3.



- Darparu darpariaeth 'trochi' o safon uchel i gefnogi disgyblion sy'n symud i Bowys ac nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg, a hefyd i ddisgyblion sy'n dewis symud o ffrwd/ysgol cyfrwng Saesneg ym Mhowys i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Darparu darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu'r gweithlu i sicrhau bod cyflenwad da o staff gofal plant, staff ysgolion a staff yr awdurdod yn gallu darparu eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2.2 PAM FOD ANGEN NEWID YM MHOWYS

Mae Powys yn awdurdod mawr, gwledig. Mae'n gorchuddio chwarter y tir yng Nghymru, ac mae'n cynnwys dim ond 4.2% o'r boblogaeth, sy'n golygu mai dyma'r sir fwyaf poblog yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau ar draws ardal mor fawr â phoblogaeth yn heriol ac yn ddrudd.

Er bod rhywfaint o weithgarwch ad-drefnu wedi bod ym Mhowys dros y blynyddoedd diwethaf, mae seilwaith ysgolion y sir yn parhau i fod yn debyg i raddau helaeth i'r hyn a oedd ar waith 20 mlynedd yn ôl.

Mae Strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu addysg ym Mhowys, a nodwyd yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ystod tymor yr hydref 2019 a thymor y gwanwyn 2020.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor, fel yr amlinellir yn y Strategaeth:

### i) Cyfran uchel o ysgolion bach

Yn seiliedig ar ffigurau PLASC 2019, roedd 33 o ysgolion cynradd bach ym Mhowys – tua 40% o'r ddarpariaeth gynradd yn y sir. Roedd gan 21 ysgol lai na 50 o ddisgyblion, ac mae'r gyfran o'r gyllideb fesul disgybl ar gyfer yr ysgolion hyn yn gyffredinol uwch na chyfartaledd Powys ar gyfer ysgolion cynradd.

### ii) Lleihau niferoedd disgyblion

Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng dros y degawd diwethaf, ac mae disgwyl iddynt ostwng ymhellach dros y pum mlynedd nesaf. Mae disgwyl i niferoedd disgyblion yn y sector cynradd ym Mhowys ostwng tua 4% erbyn 2025.

### iii) Nifer uchel o leoedd gwag

Yn seiliedig ar ffigurau PLASC 2019, roedd 18% o gapasiti dros ben yn ysgolion cynradd Powys. Gyda disgwyl i niferoedd disgyblion ledled Powys

ostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd nesaf, bydd cyfran y lleoedd gwag ar draws y sir yn parhau i gynyddu.

**iv) Cyflwr adeiladu**

Er bod y Cyngor wedi buddsoddi yn ei ystâd ysgolion drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cynllun Rheoli Asedau, mae cyflwr adeiladu yn parhau i fod yn broblem ar draws Powys, gyda chostau cynnal a chadw cysylltiedig.

**v) Pwysau ariannol**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn gyffredinol. Mae hyn yn effeithio ar bob maes gwasanaeth, gan gynnwys y sector ysgolion. Mae amrywiadau sylweddol yng nghyfran y gyllideb fesul disgybl ar draws ysgolion Powys, yn amrywio o £3,512 i £11,689 yn y sector cynradd ac o £4,439 i £6,243 yn y sector uwchradd yn 2022-23.

**vi) Anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg Gymraeg**

Yn wahanol i ardaloedd eraill o Gymru, does dim twf wedi bod yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen newidiadau sylweddol i'r cynnig cyfrwng Cymraeg ym Mhowys i wyrdroi tuedd y blynyddoedd diwethaf a sicrhau bod holl ddysgwyr Powys yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr drwy gydol eu gyrfaedd addysgol.

**vii) Cynnig ôl-14 ac ôl-16 cyfyngedig**

Ym mis Medi 2019, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad ar ddarpariaeth ôl-16, a oedd yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys lleihau nifer y dysgwyr, heriau ariannol a chynaliadwyedd y cwricwlwm a gynigir, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**viii) Anghydraddoldeb o ran mynediad at ddarpariaeth AAA**

Ym Mhowys, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn mynychu amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion arbennig, canolfannau arbenigol, yr uned cyfeirio disgyblion (PRU) yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd, nid yw pob disgybl yn cael ei addysgu yn y lleoliad sy'n diwallu ei anghenion orau, ac yn dibynnu ar ble mae disgyblion yn byw, mae ganddynt fynediad at ansawdd a math gwahanol o ddarpariaeth.

**ix) Diffyg gwneud penderfyniadau gwleidyddol hanesyddol**

Er bod rhai datblygiadau wedi bod o ran seilwaith yr ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, mae methiant y Cyngor i weithredu nifer o gynigion proffil uchel yn y gorffennol wedi gadael gwaddol ym Mhowys.

### **3. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL BRO CAEREINION**

Sefydlwyd Ysgol Bro Caereinion fel ysgol bob oed dwy ffrwd, gan adlewyrchu categorïau iaith yr ysgol gynradd ac uwchradd flaenorol yn Llanfair Caereinion. Fodd bynnag, cydnabuwyd cryfder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol drwy gydol y cynnig. Yn benodol, cydnabuwyd bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yn Llanfair Caereinion yn ganolog i ddyhead y Cyngor i ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd Gymraeg well ar gyfer disgyblion yr ardal.

Drwy gydol y broses statudol i sefydlu Ysgol Bro Caereinion, derbyniwyd sylwadau yn awgrymu y dylai'r Cyngor fod yn cynnig sefydlu ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg newydd yn Llanfair Caereinion, nid ysgol dwy ffrwd. Er bod y Cyngor wedi bwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu ysgol dwy ffrwd newydd, datblygwyd gweledigaeth Gymraeg ar gyfer Ysgol Bro Caereinion gan gorff llywodraethol dros dro yr ysgol, a oedd yn nodi eu cynlluniau i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y corff llywodraethol dros dro, ac wedi hynny mae wedi cael ei fabwysiadu gan gorff llywodraethol newydd Ysgol Bro Caereinion.

Mae sgysiau am ddarpariaeth iaith yr ysgol yn y dyfodol wedi digwydd yn ddiweddar, yn gysylltiedig â chyflwyno categorïau Cymraeg newydd gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r sgysiau hyn, mae cynrychiolwyr o'r ysgol wedi egluro bod y model dwy ffrwd presennol yn achosi rhai heriau.

Mae'r heriau hyn fel a ganlyn:

#### **3.1 Newidiadau yn niferoedd disgyblion cyfrwng Saesneg**

Mae'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn gwasanaethu tref Llanfair Caereinion yn bennaf a darparwyr cynradd cyfrwng Saesneg eraill yn yr ardal gyfagos. Fodd bynnag, bu newidiadau sylweddol yn y dalgylch yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi effeithio ar nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn y dalgylch, a fyddai'n debygol o effeithio ar nifer y disgyblion a fydd yn cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae Ysgol Meifod, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a oedd gynt yn rhan o ddalgylch Caereinion, wedi symud i ddalgylch Llanfyllin
- Fe wnaeth Ysgol yr E. yng Ngh. Castell Caereinion, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a oedd gynt yn rhan o ddalgylch Caereinion, gau ym mis Awst 2022.
- Mae'r ddau ddarparwr cynradd dwy ffrwd yn y dalgylch (Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan) wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac o ganlyniad, gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg.

Mae'r newidiadau uchod yn golygu, ar hyn o bryd, mai'r unig ddisgyblion cyfrwng Saesneg y disgwylir iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg

Ysgol Bro Caereinion yw'r rhai sy'n mynychu Ysgol Rhiw Bechan ac Ysgol Bro Caereinion. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol yma wedi gostwng.

Mae niferoedd presennol disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ysgolion sy'n bwydo Ysgol Bro Caereinion fel a ganlyn<sup>4</sup>:

### Ysgol Bro Caereinion

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	12	7	11	7	14	11	12	74
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	0	7	6	8	5	8	16	50
<b>Cyfanswm</b>	12	14	17	15	19	19	28	124

### Ysgol Cwm Banwy

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	5	7	8	5	8	8	3	44
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	5	7	8	5	8	8	3	44

### Ysgol Dafydd Llwyd

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	29	32	31	39	24	24	17	196
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	29	32	31	39	24	24	17	196

### Ysgol Gymraeg y Trallwng

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	19	18	11	13	15	7	14	97
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	19	18	11	13	15	7	14	97

### Ysgol Pontrobert

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	14	7	14	8	12	6	5	66

<sup>4</sup> Canolfan Athrawon, 13 Medi 2023. Data Ysgol Bro Caereinion wedi'i ddarparu gan yr ysgol, 6 Medi 2023

<b>Cyfrwng Saesneg</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	14	7	14	8	12	6	5	66

### Ysgol Rhiw Bechan

	R	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	12	21	16	12	11	12	5	89
<b>cyfrwng Saesneg</b>	5	4	4	8	9	11	14	55
<b>Cyfanswm</b>	17	25	20	20	20	23	19	144

### CYFANSWM

	R	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	91	92	91	84	84	68	56	566
<b>cyfrwng Saesneg</b>	5	11	10	16	14	19	30	105
<b>Cyfanswm</b>	96	103	101	100	98	87	86	671

## 3.2 Heriau ariannol

Mae Ysgol Bro Caereinion yn cael ei hariannu fel dwy ffrwd ar wahân yn fformiwla ariannu'r Cyngor ar gyfer ysgolion. Y rhagamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yw y bydd yn cael ei hariannu ar gyfer 238 o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg (57 cynradd, 181 uwchradd) a 262 o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg (74 cynradd, 188 uwchradd).

Mae'r ddwy ffrwd yn fach, sy'n cynnig heriau o ran y cynnig cwricwlaidd y gall yr ysgol ei ddarparu, yn enwedig ar lefel TGAU. Ar gyfer pob ysgol / ffrwd cyfnod uwchradd bach, mae tensiwn rhwng y cyllid a ddarperir ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm (yn seiliedig ar nifer y disgyblion) a maint y cwricwlwm yr hoffai'r ysgol ei gynnig.

Mae'r rhagamcanion presennol ar gyfer yr ysgol yn dangos y rhagwelir y bydd yr ysgol mewn sefyllfa ddiffyg erbyn 31 Mawrth 2027.

## 3.3 Dim mynediad i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig

Mewn cyferbyniad â gweddill Cymru, nid yw disgyblion yn y rhan hon o Ogledd Powys yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar hyn o bryd. Nid yw'r sefyllfa hon yn bodloni dyheadau'r Cyngor fel yr amlinellir yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), ac nid yw'n bodloni dyheadau Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys. Ers blynyddoedd lawer, mae'r Cyngor wedi bod yn anelu at ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer disgyblion yn yr ardal hon, ond nid yw hyn wedi'i wireddu eto.

### **3.4 Effaith ar niferoedd disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd**

Mae'r diffyg darpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig yn yr ardal wedi cael effaith amlwg ar y niferoedd disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn hanesyddol, mae'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Llanfair Caereinion wedi gwasanaethu dalgylch eang, gan gynnwys trefi'r Drenewydd a'r Trallwng yn ogystal â dalgylch traddodiadol Llanfair Caereinion. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion o Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn y Trallwng sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Llanfair Caereinion wedi bod yn gymharol isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda disgyblion yn dewis trosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach, neu'n dewis trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg.

Mae'r gostyngiad yn y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yr ysgol wedi effeithio ar allu Ysgol Bro Caereinion i gynnig cymaint posibl o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ar allu'r Cyngor i gynnig mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr i ddisgyblion yn yr ardal hon.

## **4. MANTEISION DWYIEITHRWYDD**

Pe bai'r Cyngor yn gweithredu'r cynigion, byddai'r holl ddisgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ddwyieithog, rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae dwyieithrwydd yn dod â nifer o fanteision.

Mae rhwng 60% a 75% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog, ac mae ymchwil ryngwladol wedi dangos bod llawer o fanteision yn gysylltiedig â bod yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae plant sy'n agored i ieithoedd gwahanol yn dod yn fwy ymwybodol o wahanol ddiwylliannau, pobl eraill a safbwyntiau eraill.
- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn well na rhai uniaith wrth 'amldasgio' a chanolbwyntio sylw
- Yn gyffredinol, mae pobl ddwyieithog yn ei chael hi'n haws dysgu ieithoedd eraill
- Mae ymchwil yn awgrymu y gall dysgu iaith arall ohirio dechrau dementia

Yng Nghymru, mae bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dod â manteision pellach wrth chwilio am swyddi, gan fod cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am bobl sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Addysg Gymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael addysg Gymraeg yn siarad Cymraeg pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, ond maent yn cael eu trochi yn y Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, yn dod yn gwbl ddwyieithog, ac yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae mwy o wybodaeth am ddwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn: <https://cy.powys.gov.uk/TaithatDdwylaith>

## 5. OPSIYNAU A GAFODD EU HYSTYRIED

Mae'r opsiynau canlynol wedi'u hadnabod i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan strwythur dwy ffrwd bresennol yr ysgol:

Opsiw'n	Disgrifiad
1	<p><b><u>Status quo</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ysgol Bro Caereinion yn parhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd</li> <li>- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn</li> </ul>
2	<p><b><u>Newid iaith darpariaeth gynradd yr ysgol</u></b></p>
2a	<p><b>Newid darpariaeth gynradd yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn unig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai pob disgybl oed cynradd yn yr ysgol yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</li> <li>- Ar ddiwedd y cyfnod cynradd, gallai rhieni / disgyblion ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg.</li> </ul>
2b	<p><b>Newid darpariaeth gynradd yr ysgol i gyfrwng Saesneg yn unig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai pob disgybl oed cynradd yn yr ysgol yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg</li> <li>- Ar ddiwedd y cyfnod cynradd, gallai rhieni / disgyblion ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg.</li> </ul>
3	<p><b><u>Newid iaith darpariaeth uwchradd yr ysgol</u></b></p>
3a	<p><b>Newid darpariaeth uwchradd yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn unig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai darpariaeth gynradd yn parhau i gael ei darparu drwy drefniant dwy ffrwd, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael i ddisgyblion cynradd</li> <li>- Dim ond yn Gymraeg y byddai darpariaeth uwchradd ar gael</li> <li>- Byddai angen i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn y cyfnod cynradd naill ai drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, neu i ysgolion cyfrwng Saesneg eraill</li> </ul>
3b	<p><b>Newid darpariaeth uwchradd yr ysgol i gyfrwng Saesneg yn unig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai darpariaeth gynradd yn parhau i gael ei darparu drwy drefniant dwy ffrwd, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael i ddisgyblion cynradd</li> <li>- Byddai darpariaeth uwchradd ar gael yn Saesneg yn unig</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai angen i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod cynradd naill ai drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, neu i ysgolion eraill lle darperir darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>
<b>4</b>	<b><u>Newid iaith yr ysgol gyfan</u></b>
<b>4a</b>	<b>Newid iaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol gyfan i gyfrwng Cymraeg yn unig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r holl ddarpariaeth yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>- Byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drosglwyddo i ysgolion eraill</li> </ul>
<b>4b</b>	<b>Newid iaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol gyfan i gyfrwng Saesneg yn unig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r holl ddarpariaeth yn yr ysgol drwy gyfrwng y Saesneg</li> <li>- Byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drosglwyddo i ysgolion eraill</li> </ul>

Mae dadansoddiadau SWOT wedi'u cynnal ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn. Yn ogystal, maent wedi cael eu hasesu yn erbyn nifer o Ffactorau Llwyddiant Allweddol. Gellir dod o hyd i'r rhain yn [Atodiad B](#) o'r ddogfen hon.

Yn seiliedig ar y dadansoddiadau SWOT a'r asesiad yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Allweddol, yr opsiwn a ffeirir ar gyfer Ysgol Bro Caereinion yw:

#### **Opsiwn 4a: Newid iaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol gyfan i gyfrwng Cymraeg yn unig**

Y rhesymau am hyn yw:

- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon
- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor hwy
- Byddai'n darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig
- Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Yn cwrdd â Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys
- Byddai'n bodloni dyheadau CSCA y Cyngor
- Arbedion ariannol posibl i'r awdurdod

## **6. OPSIYNAU GWEITHREDU**

Mae nifer o opsiynau gweithredu posibl er mwyn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffeirir ar gyfer Ysgol Bro Caereinion a nodwyd uchod. Mae'r rhain fel a ganlyn:

<b>Opsiwn 5A</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith i gyfrwng Cymraeg ym mhob blwyddyn ar yr un dyddiad</li> <li>- Byddai hyn yn golygu o ddyddiad penodol, byddai'r holl ddarpariaeth yn yr ysgol yn gyfrwng Cymraeg; byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drosglwyddo i ysgolion eraill</li> <li>- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni</li> </ul>
<b>Opsiwn 5B</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith yn raddol, gan ddechrau gyda Derbyn, yna Blwyddyn 1 y flwyddyn ganlynol, Blwyddyn 2 y flwyddyn ar ôl ac ati.</li> <li>- Byddai hyn yn cymryd hyd at 14 mlynedd i'w weithredu ar draws yr ysgol (i flwyddyn 13)</li> <li>- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni</li> </ul>
<b>Opsiwn 5C</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith fesul cam gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd. Byddai hyn yn golygu mai dim ond darpariaeth cyfrwng Cymraeg fyddai ar gael yn y flwyddyn Derbyn a Blwyddyn 7 yn ystod y flwyddyn gyntaf, yna Blwyddyn 1 a Blwyddyn 8 y flwyddyn ganlynol ac ati.</li> <li>- Bydd hyn yn cymryd hyd at 7 mlynedd i'w weithredu ar draws yr ysgol</li> <li>- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni</li> </ul>
<b>Opsiwn 5D</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith i gyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd ar un dyddiad, a'r cyfnod uwchradd fesul cam, gan ddechrau o Flwyddyn 7</li> <li>- Byddai hyn yn cymryd hyd at 7 mlynedd i'w weithredu ledled yr ysgol, fodd bynnag, byddai'n cael ei weithredu ar draws y cyfnod cynradd cyfan ar unwaith.</li> <li>- Byddai hyn yn golygu, o ddyddiad penodol, byddai'r holl ddarpariaeth gynradd yn yr ysgol yn gyfrwng Cymraeg; byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drosglwyddo i ysgolion eraill</li> <li>- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni</li> </ul>

Mae dadansoddiadau SWOT hefyd wedi'u cynnal ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn. Yn ogystal, mae'r opsiynau wedi'u hasesu yn erbyn nifer o Ffactorau Llwyddiant Allweddol. Gellir dod o hyd i'r rhain yn [Atodiad C](#) o'r ddogfen hon.

Yn seiliedig ar ddadansoddiadau SWOT a'r asesiad yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Allweddol, yr opsiwn gweithredu a ffefrir yw:

### **Opsiwn 5C:**

- Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith fesul cam gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd. Byddai hyn yn golygu mai dim ond darpariaeth cyfrwng Cymraeg fyddai ar gael yn y flwyddyn Derbyn a Blwyddyn 7 yn ystod y flwyddyn gyntaf, yna Blwyddyn 1 a Blwyddyn 8 y flwyddyn ganlynol ac ati.
- Bydd hyn yn cymryd hyd at 7 mlynedd i'w weithredu ar draws yr ysgol
- Cyflwyno cymorth Cymraeg ychwanegol ochr yn ochr â'r newid yn y categori iaith e.e. Trochi, cefnogaeth Gymraeg ychwanegol

Y rhesymau am hyn yw:

- Byddai'n byrhau'r cyfnod o drosglwyddo i'r model newydd o'i gymharu â rhai opsiynau eraill
- Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd - byddai disgyblion presennol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy'r cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y maent ynddo.
- Galluogi'r ysgol i weithredu'n mwy effeithiol yn gyflymach
- Yn caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid
- Byddai'n sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd dynodedig ar gael yn gyflymach, ac felly'n bodloni'r dyhead CSCA y Cyngor

## **7. ADNABOD YR OPSIWN A FFEFRIR**

Yn seiliedig ar yr opsiwn a ffefrir a nodwyd yn adran 5 uchod a'r opsiwn gweithredu a ffefrir a nodwyd yn adran 6, yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Ysgol Bro Caereinion yw:

### **Newid iaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol gyfan i gyfrwng Cymraeg**

- Y newid yn y ddarpariaeth iaith i gael ei gyflwyno fesul cam, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd.
- Yn y pen draw, byddai pob disgybl yn yr ysgol yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddai pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig canlynol:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg

- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Archwilir y cynnig ymhellach yn yr adran ganlynol.

## **RHAN B – Y CYNNIG**

### **9. TROSOLWGW**

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynigion i symud Ysgol Bro Caereinion ar hyd y continwrm iaith. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Byddai hyn yn golygu:

- Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyflwyno'n raddol fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025
- Yn y pen draw, byddai pob disgybl yn yr ysgol yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddai pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r newid yn y categori iaith e.e. Trochi, cefnogaeth Gymraeg ychwanegol

### **10. RHESYMAU DROS Y CYNNIG**

Mae'r Cyngor yn cynnig symud Ysgol Bro Caereinion ar hyd y continwrm iaith am y rhesymau canlynol:

- Byddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon
- Gellir cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Byddai cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor hwy
- Byddai'n darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig
- Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Yn bodloni Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys
- Byddai'n bodloni dyheadau CSCA y Cyngor
- Arbedion ariannol posibl i'r awdurdod
- Byddai'n byrhau'r cyfnod o drosglwyddo i'r model newydd o'i gymharu â rhai opsiynau eraill
- Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd - byddai disgyblion presennol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y maent ynddo.
- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon yn gyflymach
- Yn caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid

- Byddai'n sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd dynodedig ar gael yn gyflymach, ac felly'n bodloni'r dyhead yn CSCA y Cyngor

## 11. MANTEISION AC ANFANTEISION

Crynoir manteision ac anfanteision y cynnig presennol yn Ysgol Bro Caereinion isod:

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon</li> <li>- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>- Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor hwy</li> <li>- Byddai'n darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig</li> <li>- Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal</li> <li>- Yn bodloni Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys</li> <li>- Byddai'n bodloni dyheadau WESP y Cyngor</li> <li>- Arbedion ariannol posibl i'r awdurdod</li> <li>- Byddai'n byrhau'r cyfnod o drosglwyddo i'r model cyflenwi newydd o'i gymharu â rhai opsiynau eraill</li> <li>- Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd - byddai disgyblion presennol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y maent ynddo.</li> <li>- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon yn gyflymach</li> <li>- Yn caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid</li> <li>- Byddai'n sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd dynodedig ar gael yn gyflymach, ac</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg fynychu ysgolion eraill</li> <li>- Teithio ychwanegol i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg</li> <li>- Effaith bosibl ar niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion pe bai disgyblion yn dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall</li> <li>- Effaith ar staff di-Gymraeg yn yr ysgol</li> <li>- Gall fod yn amhoblogaidd gyda rhai yn y gymuned leol</li> <li>- Efallai y bydd angen i rai disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd drosglwyddo i ddarpariaeth arall os ydynt yn dymuno parhau i fynychu darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg</li> <li>- Effaith bosibl ar staff di-Gymraeg yn y tymor hwy</li> </ul>

felly'n bodloni'r dyhead yn CSCA y Cyngor	
---	--

## 12. RISGIAU

Fel gyda phob cynnig ad-drefnu ysgolion, mae risgiau yn gysylltiedig â'r cynnig i symud Ysgol Bro Caereinion ar hyd y continwrm iaith.

Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod, ynghyd â chamau gweithredu awgrymedig:

Risg	Sgôr Risg Cychwynnol	Camau Gweithredu	Sgôr Risg Gweddilliol
Nid yw rhieni eisiau i'w plant fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, felly maent yn dewis iddynt symud i ysgolion eraill	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Newid i'w gyflwyno'n raddol i leihau'r effaith ar ddisgyblion presennol</li> <li>- Ymgysylltu â rhieni drwy gydol y broses</li> </ul>	Isel
Mae rhieni'n dewis i'w plant fynychu ysgolion eraill yn lle Ysgol Bro Caereinion yn y dyfodol, a fyddai'n effeithio ar gyllideb yr ysgol ac yn cynyddu lleoedd gwag	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymgyrch hyrwyddo i helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a'r cymorth sydd ar gael, e.e. Trochi</li> </ul>	Isel

## 13. AMSERLEN GWEITHREDU POSIBL

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, mae amserlenni posibl ar gyfer gweithredu fel a ganlyn:

Ymgynghoriad Ffurfiol	19 Hydref 2023 i 30 Tachwedd 2023
Adroddiad ymgynghori i'w gyhoeddi, a'i ystyried gan y Cabinet	Ionawr / Chwefror 2024

**Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen:**

Cyhoeddi Rhybudd Statudol (cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod)	Chwefror 2024
Adroddiad Gwrthwynebu i'w gyhoeddi a'i ystyried gan y Cabinet	Mawrth / Ebrill 2024

**Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo gweithredu:**

Mae'r ffrwd Saesneg yn dechrau cael ei diddymu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7

Medi 2025



## **RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG**

### **14. EFFAITH AR DDISGYBLION**

#### **i) Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r newid yng nghategori iaith yr ysgol yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

I ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd, ni fyddai unrhyw newid – bydden nhw'n parhau i dderbyn yr un ddarpariaeth drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

I ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, ni fyddai unrhyw newid – byddent yn parhau i allu cael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Byddai'r effaith fwyaf ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion, gan y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ysgol ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2025 ymlaen. Byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol dal yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ond ni fyddai'r ddarpariaeth hon ar gael erbyn i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 neu is gyrraedd y cyfnod uwchradd. Fodd bynnag, byddent yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drwy gydol y cyfnod cynradd.

Byddai angen i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ym mlwyddyn 5 neu is naill ai drosglwyddo i ysgolion eraill i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, neu byddai angen iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y cyfnod uwchradd.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynnig, cynigir bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu ar ffurf darpariaeth trochi hwyr. Mae hwn yn fodel sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ym Mhowys ac mewn awdurdodau eraill i alluogi disgyblion i drosglwyddo o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd canolfan drochi yn cael ei lleoli yn Ysgol Bro Caereinion, a fydd yn darparu cwrs 10 wythnos o addysgu Cymraeg dwys i alluogi disgyblion i drosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg. Gellir cynnig cyrsiau ar lefel gynradd (blwyddyn 2 – 5) neu wrth drosglwyddo (blwyddyn 5 – 7) yn ôl yr angen.

Pe bai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill, byddai angen teithio ychwanegol ar gyfer disgyblion y mae Ysgol Bro Caereinion yn ysgol agosaf iddynt ar hyn o bryd. Mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn nodi, os yw disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, bydd y Cyngor yn darparu hyn i'w hysgol agosaf neu ddalgyrch. Os yw disgyblion yn byw yn agosach

at Ysgol Bro Caereinion ond yn dewis ysgolion eraill yn lle hynny, yna ni fyddant yn gallu cael mynediad at gludiant ysgol am ddim, a byddai angen iddynt wneud eu trefniadau cludiant eu hunain.

Gallai mynychu ysgolion ymhellach i ffwrdd hefyd effeithio ar allu disgyblion i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol.

**ii) Disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd clwstwr Llanfair Caereinion yn rhai cyfrwng Cymraeg. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r disgyblion hyn yn parhau i allu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion, ond y disgwyliad yw y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir yn fwy cynhwysfawr na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd gan y byddai'r ysgol yn un ffrwd. Rhagwelir felly y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion hyn, gan y buasant yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn, nad yw ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd.

Ysgol dwy ffrwd yw Ysgol Rhiw Bechan, a hi yw'r unig ysgol arall yn yr ardal sy'n darparu addysg gynradd drwy gyfrwng y Saesneg. Byddai'r cynnig yn cael mwy o effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg Ysgol Rhiw Bechan, gan y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu na fyddai ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn Ysgol Bro Caereinion ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2025 ymlaen. Byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol dal yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ond ni fyddai'r ddarpariaeth hon ar gael erbyn i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 neu is gyrraedd y cyfnod uwchradd.

Byddai angen i ddisgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Rhiw Bechan ym mlwyddyn 5 neu is naill ai drosglwyddo i ysgolion eraill i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, neu byddai angen iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y cyfnod uwchradd.

Er mwyn cefnogi gweithredu'r cynnig, cynigir bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu ar ffurf ddarpariaeth trochi hwyr ('Trochi Pontio'). Mae hwn yn fodel sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ym Mhowys ac mewn awdurdodau eraill i alluogi disgyblion i drosglwyddo o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd canolfan drochi yn cael ei lleoli yn Ysgol Bro Caereinion, gan ddarparu cwrs 10 wythnos o addysgu Cymraeg dwys i alluogi disgyblion i drosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg. Gellir cynnig cyrsiau ar lefel gynradd (blwyddyn 2-5) neu wrth drosglwyddo (blwyddyn 5-7) yn ôl yr angen.

**iii) Disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill nad ydynt yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion**

**Ysgolion Cynradd**

Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd nad ydynt yn nalgylch Bro Caereinion. Mae'n bosibl y gallai rhai disgyblion ddewis mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn yr ardal, fel Ysgol Rhiw Bechan, Ysgol Meifod ac Ysgol G.G. Aberriw, yn hytrach na mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, fodd bynnag, ni ragwelir y byddai nifer y disgyblion yn fawr, ac felly byddai'r effaith ar ddisgyblion yn yr ysgolion eraill yn fach.

### **Ysgolion Uwchradd**

Mae'n bosibl y gallai gweithredu'r cynnig arwain at newidiadau i ddarparwyr uwchradd eraill yn yr ardal leol.

Gallai disgyblion a fyddai wedi cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn flaenorol ddewis cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn yr ardal, fel Ysgol Uwchradd Y Drenewydd, Ysgol Uwchradd y Trallwng ac Ysgol Llanfyllin.

Yn ogystal, gall disgyblion a fyddai wedi dewis cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd eraill yn yr ardal, fel Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Llanfyllin, benderfynu dewis mynychu Ysgol Bro Caereinion, gan y byddai'n darparu lefel well o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â darparwyr dwy ffrwd yr ardal.

Er y rhagwelir y byddai effaith y newidiadau posibl hyn ar ddisgyblion yn yr ysgolion eraill yn fach, mae'n bosibl y gallai gostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n dewis mynychu ysgolion dwy ffrwd eraill leihau eu cyllid dirprwyedig, a allai yn ei dro effeithio ar faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fyddai ar gael i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion hynny.

## **15. EFFAITH AR STAFF**

Mae yna nifer sylweddol o staff yn Ysgol Bro Caereinion sy'n ddwyieithog ac ar hyn o bryd yn addysgu ac yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae nifer o staff addysgu a staff cefnogi ar draws y safleoedd cynradd ac uwchradd sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y ffrwd Saesneg yn unig neu'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai awdit yn cael ei wneud gyda'r holl staff i ddeall eu lefelau iaith Gymraeg presennol ac i flaenoriaethu staff i'w cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Gymraeg.

Mae'r cynnig i gyflwyno'r newid yn raddol yn rhoi amser i staff fynychu cyrsiau priodol i gefnogi eu datblygiad yn y maes hwn. Byddai Adnoddau Dynol yn rhan o gefnogi ymgynghori â phob aelod o staff ac yn cefnogi'r broses o drosglwyddo i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddai'r broses o reoli newid yn cefnogi staff i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth neu adleoli eraill.

## **16. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau llywodraethu yn yr ysgol.

## **17. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG**

### **i) Effaith debygol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol, grwpiau penodol ac mewn sgiliau**

Byddai'r Cyngor yn disgwyl cefnogi Ysgol Bro Caereinion i symud ar hyd continwwm y Gymraeg i gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd disgyblion yn gyffredinol. Wrth i'r newid gael ei gyflwyno'n raddol, byddai'r Cyngor yn disgwyl y byddai gweithredu yn arwain at ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau, gan na fyddai angen i'r ysgol ddyblygu darpariaeth bellach, a fyddai, yn ei dro, yn sicrhau gwell cyfleoedd i ddysgwyr ar draws pob oedran.

Rhagwelir y byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd continwwm y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd yn gyffredinol ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol fel Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai un continwwm dysgu yn cael ei weithredu ar draws pob ystod oedran, a fyddai'n golygu y gellid monitro a chefnogi cynnydd llythrennedd disgyblion yn fwy effeithiol trwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i ddisgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol fel y rhai a amlinellir uchod. Byddai gwell cyfleoedd i'r holl staff weithio'n fwy cydweithredol a rhannu arfer orau ac arbenigeddau, gan sicrhau y gellir cefnogi disgyblion yn fwy effeithiol drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Rhagwelir hefyd y byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau pob disgybl, yn enwedig sgiliau Cymraeg, gan y byddai'n galluogi pob disgybl i fod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i dargedu cymorth ar draws pob cam addysg yn fwy effeithiol.

Er mai'r bwriad yw y byddai disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, mae'n bosib y byddai rhai yn dewis trosglwyddo i ddarparwyr cyfrwng Saesneg eraill, yn benodol Ysgol Rhiw Bechan, Ysgol Meifod neu Ysgol G.G. Aberriw ar gyfer darpariaeth gynradd, ac Ysgol Uwchradd Y Trallwng, Ysgol Llanfyllin neu Ysgol Uwchradd Y Drenewydd ar gyfer darpariaeth uwchradd. Barn y Cyngor yw y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgolion hyn i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i dderbyn addysg sydd o ansawdd sy'n cyfateb i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Bro Caereinion.

### **ii) Lles ac agweddau tuag at ddysgu**

Byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith yn golygu y byddai pob disgybl yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg llawn yn y pen draw. Byddai hyn yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion yn cael eu dysgu gyda'i gilydd, gan sicrhau gwell cydlyniant ar draws yr ysgol ac effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion.

Yn y sector uwchradd, addysgir dosbarthiadau yn Saesneg neu yn Gymraeg, fodd bynnag, mae maint dosbarthiadau yn fach ac mae'n rhaid i'r ysgol flaenoriaethu pynciau craidd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion. Byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith yn golygu y byddai pob disgybl yn y pen draw yn derbyn addysg gwbl Gymraeg. Byddai hyn yn caniatáu i fwy o bynciau gael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu sydd o ddiddordeb iddynt, a byddai hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

### **iii) Profiadau dysgu ac addysgu**

#### **Ansawdd yr addysgu**

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i gefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu yn Ysgol Bro Caereinion, oherwydd y gwelliannau yn y cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r cyfleoedd cydweithio y gellid eu cynnig i staff trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill mewn awdurdodau lleol a rhanbarthau addysgol eraill i rannu arfer orau mewn addysgeg.

Gallai hefyd wella gallu athrawon i adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol disgyblion a darparu ystod eang o brofiadau i ddisgyblion ddatblygu eu diddordeb a'u sgiliau llythrennedd ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu.

Byddai'r newid arfaethedig yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar ddarparu addysg mewn un cyfrwng iaith. Byddai'n caniatáu i fwy o bynciau fod ar gael drwy'r Gymraeg gan na fyddai angen cynnig pynciau yn y ddwy iaith bellach.

#### **Lled, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ehangder a chydbwysedd a phriodoldeb cwricwlwm yr ysgol. Pe bai hyn yn cael ei weithredu, ni fyddai angen i'r ysgol ddyblygu darpariaeth mwyach, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm y gellid ei ddarparu, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru, fel yr amlinellir yn 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol'.

#### **Darpariaeth sgiliau**

Rhagwelir y byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau llythrennedd pob disgybl, trwy wella cyfleoedd i rannu

arbenigedd ac adnoddau staff ar draws pob ystod oedran, a thrwy'r gallu i dargedu ar draws pob cam o addysg.

Yn benodol, byddai'r newid yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg, gan y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pen draw, gan alluogi pob disgybl i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai'r newid hefyd yn galluogi'r ysgol i wella sgiliau Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

#### **iv) Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

##### **Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu**

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd iaith yn galluogi'r ysgol i wella'r modd y mae disgyblion yn cael eu holrhain a'u monitro trwy gydol eu gyrfaoedd ysgol.

Byddai'r Cyngor yn disgwyl y byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith yn galluogi'r ysgol i wella ymhellach ei darpariaeth i baratoi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, i ddod yn ddinasyddion gweithredol, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol.

Byddai hefyd yn cefnogi pa mor dda y mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, y gymuned leol a'r byd ehangach.

#### **v) Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

##### **Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella**

Rhagwelir y byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith yn arwain at welliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Byddai'r newid arfaethedig yn helpu'r ysgol i sefydlu rhesymeg glir, strategol ar gyfer y cwricwlwm o ran ei fanteision i ddisgyblion wrth eu paratoi i ddysgu trwy gydol eu bywydau a chwarae rhan lawn yn y gymdeithas. Byddai hefyd yn cefnogi i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn bwrpasol ac yn llwyddiannus wrth fodloni'r flaenoriaeth genedlaethol o ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, a byddai gan arweinwyr a rheolwyr mwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth effeithiol ar draws yr ysgol.

#### **Dysgu proffesiynol**

Gallai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith ddarparu gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff drwy fwy o gyfleoedd i gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ledled Cymru.

## **Defnyddio Adnoddau**

Pe bai'r newid yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn y pen draw yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg un ffrwd ac yn cael ei hariannu felly. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon, gan na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth.

### **vi) Effaith ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Mae Ysgol Bro Caereinion eisoes yn ysgol bob oed, sy'n darparu gwell cyfleoedd i gefnogi disgyblion sy'n perthyn i grwpiau agored i niwed, trwy ddarparu cyfleoedd i ddarparu parhad yn y cymorth a ddarperir i ddisgyblion bregus drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Byddai hyn yn parhau i fod yn wir pe bai'r ysgol yn symud ar hyd y continwwm iaith.

Nodir pe bai'r ysgol yn symud ar hyd y continwwm iaith, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion ag ADY sy'n dod o deuluoedd lle nad oes fawr ddim Cymraeg yn cael ei siarad, neu lle na siaredir Cymraeg o gwbl. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ddarparu lefel well o gymorth i'r disgyblion hyn er mwyn diwallu eu hanghenion. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, ni fyddai'r ysgol yn newid i gyfrwng y Gymraeg dros nos. Byddai cyfnod pontio i ddisgyblion ag AAA/ADY sydd eisoes yn yr ysgol.

### **vii) Gallu'r ysgol/ysgolion sy'n destun y cynigion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol o addysg, gan gynnwys ansawdd y cwricwlwm ac i ba raddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod addysg allweddol, gan na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy ffrwd bellach.

Mae'n bosibl y gallai fod rhai heriau yn ystod y cyfnod pontio gan y byddai angen i'r ysgol ddarparu ar gyfer niferoedd llai o ddisgyblion cyfrwng Saesneg, ond pe bai'r newid i gategori iaith yr ysgol yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r ysgol drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau bod cwricwlwm priodol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol.

## **18. YR ANGEN AM LEOEDD AC EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGyrchedd Ysgolion**

### **i) A fydd gan y ddarpariaeth amgen ddigon o gapasiti ac yn darparu llety o ansawdd cyfatebol o leiaf ar gyfer niferoedd disgyblion presennol ac a ragwelir?**

Mae digon o le yn Ysgol Bro Caereinion i ddarparu ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol, a'r niferoedd a ragwelir. Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn parhau i fynychu'r un ysgol, felly ni fyddai effaith ar ansawdd yr adeiladau iddynt.

Y duedd presennol yn nalgylch Bro Caereinion ydy gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Disgwyliad y Cyngor yw y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol, felly'r disgwyliad yw y byddai'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i ostwng.

Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai rhai disgyblion ddewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn hytrach na mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, yn y tymor byr o leiaf. Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen i ddisgyblion drosglwyddo i ddarparwyr cyfrwng Saesneg eraill, er enghraifft Ysgol Uwchradd Y Trallwng, Ysgol Uwchradd Y Drenewydd ac Ysgol Llanfyllin ar gyfer darpariaeth uwchradd, ac Ysgol Rhiw Bechan, Ysgol Meifod Ysgol G.G. Aberriw ar gyfer darpariaeth gynradd. Er bod pwysau ar leoedd yn Ysgol Rhiw Bechan ar hyn o bryd, mae lleoedd cyfrwng Saesneg ar gael mewn ysgolion eraill. Mae ansawdd yr adeiladau yn y darparwyr hyn o leiaf yn cyfateb efo ansawdd yr adeiladau yn Ysgol Bro Caereinion.

Mae'n bosib hefyd y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd mewn niferoedd disgyblion yn y tymor hirach, yn enwedig yn y sector uwchradd, gan mai'r ysgol fyddai'r unig ddarparwr yn yr ardal fyddai'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn, gan gynnig llwybr dilyniant clir i ddisgyblion o addysg gynradd Gymraeg i addysg uwchradd Gymraeg. Hon fyddai ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig gyntaf yr ardal, a allai ddenu mwy o ddisgyblion o ardal ddaearyddol mwy eang. Mae digon o leoedd yn Ysgol Bro Caereinion i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a allai ddigwydd.

**ii) A yw'r ddarpariaeth amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol ac a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith a'r un cymeriad crefyddol dynodedig (os yn berthnasol)?**

Y bwriad fyddai cyflwyno'r newid i'r categori iaith yn raddol, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, gyda chefnogaeth Trochi ychwanegol yn cael ei darparu i alluogi disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd i drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir felly y byddai disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion. Mae digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y galw presennol a rhagamcanol ar gyfer yr ysgol.

Y duedd yn nalgylch Bro Caereinion fu gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig presennol i newid cyfrwng iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn gyson efo hyn. Disgwyliad y Cyngor yw y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol, felly'r disgwyliad yw y bydd y galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i leihau.



Does gan yr ysgol ddim cymeriad crefyddol – byddai hyn yn parhau i fod yn wir yn dilyn unrhyw newid i'r categori iaith.

**iii) Beth fydd natur teithiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio sy'n deillio o hynny i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA?**

Y cynllun yw i gyflwyno'r newid arfaethedig i gategori iaith yr ysgol fesul cam, gyda chymorth ychwanegol i gael ei ddarparu i alluogi i ddisgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd i drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddai disgyblion dal yn gallu mynychu'r ysgol. Ni fyddai effaith ar deithiau i'r ysgol neu amseroedd teithio i ddisgyblion a fyddai'n parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion yn dilyn unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddisgyblion AAA.

Pe bai disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau eraill, byddai cynnydd yn nifer y teithiau / amseroedd teithio i'r disgyblion hyn, yn cynnwys unrhyw ddisgyblion AAA.

Mewn perthynas â darpariaeth gynradd, byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall agosaf i Ysgol Bro Caereinion fel a ganlyn:

<b>Enw'r ysgol</b>	<b>Pellter o Ysgol Bro Caereinion</b>	<b>Amser teithio bras i'r ysgol arall</b>
Ysgol Meifod	5.7 milltir	12 munud
Ysgol Rhiw Bechan	6.0 milltir	12 munud
Ysgol G.G. Aberriw	8.0 milltir	15 munud

Mewn perthynas â darpariaeth uwchradd, byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall agosaf i Ysgol Bro Caereinion fel a ganlyn:

<b>Enw'r ysgol</b>	<b>Pellter o Ysgol Bro Caereinion</b>	<b>Amser teithio bras i'r ysgol arall</b>
Ysgol Uwchradd Y Trallwng	9.9 milltir	19 munud
Ysgol Uwchradd Y Drenewydd	12.4 milltir	28 munud
Ysgol Llanfyllin	12.8 milltir	22 munud

Yr amseroedd teithio uchod yw'r amseroedd teithio bras o Ysgol Bro Caereinion i'r ysgolion eraill, fodd bynnag byddai'r pellter o gartrefi disgyblion unigol i'r ysgolion eraill yn wahanol. Mae dadansoddiad wedi dangos na fyddai'r pellteroedd a'r amseroedd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall yn fwy na 45 munud i ddisgyblion cynradd neu awr i ddisgyblion uwchradd.

**iv) A oes tystiolaeth o angen/galw yn yr ardal am lleoedd ychwanegol yn y presennol neu'r dyfodol?**

Ar hyn o bryd does dim tystiolaeth bod angen lleoedd ychwanegol yn y dyfodol, ond mae'n bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i'r ysgol i gael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**v) A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Ni fyddai unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn effeithio ar fynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

**19. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL**

**i) Pa effaith fydd y cynigion yn ei gael ar lefydd gwag yn yr ardal?**

Y bwriad yw cyflwyno'r newid fesul cam gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, gan symud drwy'r ysgol fesul blwyddyn wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Byddai cefnogaeth Trochi hefyd yn cael ei ddarparu i alluogi disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd i drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y bwriad yw y byddai pob disgybl presennol yn parhau i fynychu'r ysgol, felly ni fyddai unrhyw effaith ar lefydd gwag.

Mae'n bosibl y gallai fod rhywfaint o effaith ar nifer y disgyblion yn y tymor hwy pe bai disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn hytrach na dewis mynychu Ysgol Bro Caereinion, ond mae hefyd yn bosibl y gall disgyblion ychwanegol ddewis mynychu'r ysgol, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd, yn dilyn newid yn y cyfrwng iaith. Bydd niferoedd disgyblion a lefelau capasiti yn yr ysgol yn parhau i gael eu monitro.

**ii) A yw'r cynigion yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer y Dyfodol yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif ac at well rheolaeth strategol ar ystâd yr ysgol?**

Nid yw'r cynlluniau presennol mewn perthynas â chategori iaith Ysgol Bro Caereinion yn rhan o raglen fuddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir yr angen am fuddsoddiad yn adeiladau Ysgol Bro Caereinion, yn enwedig i gefnogi rôl strategol yr ysgol fel darparwr darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a fydd yn cael ei datblygu yn 2023/24.

**iii) Beth yw costau cylchol cynigion dros gyfnod o dair blynedd o leiaf ac a yw'r cyllid cylchol angenrheidiol ar gael?**

Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â newid categori iaith yr ysgol.

**iv) A fydd costau trafndiaeth ychwanegol yn cael eu codi o ganlyniad i'r cynnig?**

Y bwriad yw cyflwyno'r newid i gategori iaith yr ysgol fesul cam wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Ni ragwelir y byddai costau cludiant ychwanegol i'w talu o ganlyniad i'r newid.

**v) Beth yw costau cyfalaf y cynnig ac a yw'r arian cyfalaf angenrheidiol ar gael?**

Nid oes costau cyfalaf yn gysylltiedig â newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion.

**vi) Beth yw maint unrhyw arbedion net a ragwelir (gan ystyried referniw ysgolion, trafndiaeth a chostau cyfalaf)**

Amcangyfrifir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn y pen draw yn arwain at arbedion referniw blynyddol o £383k y flwyddyn i'r Cyngor unwaith y bydd yr ysgol i gyd yn un ffrwd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys amrywiadau cyffredinol yn nifer y disgyblion dros y cyfnod o 7 mlynedd, gan y byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gyllidebol flynyddol. Byddai arbediad o £34k yn y flwyddyn gyntaf, a byddai arbedion blynyddol pellach wrth i'r newid ddigwydd yn raddol yn seiliedig ar ragamcanion disgyblion presennol. Mae ysgolion un ffrwd yn fodel darparu mwy cost effeithiol.

Ni ragwelir y byddai effaith ar gostau trafndiaeth, ac ni fyddai costau cyfalaf o ganlyniad i newid categori iaith yr ysgol.

Yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfredol ynghylch niferoedd disgyblion, gallai'r ysgol leihau dosbarth dros dro yn y cyfnod cynradd am flwyddyn yng nghanol y broses drosglwyddo, a byddai'r cyllid fformiwla yn adlewyrchu hyn. Gan y byddai hwn yn ostyngiad dros dro oherwydd patrwm y newidiadau yn nifer disgyblion yn y ddwy ffrwd (fel y rhagamcanwyd ar hyn o bryd), byddai'n ymddangos yn rhesymol na fyddai disgwyl i'r ysgol leihau athrawon / dosbarthiadau, oni bai bod rhagamcanion niferoedd disgyblion ar y pryd yn dangos gostyngiad parhaol. Cynigir y byddai cyllid trawsnewid ar gael i gefnogi'r ysgol gyda hyn yn ystod y flwyddyn honno, pe bai'r rhagamcanion presennol yn cael eu gwireddu. Byddai angen adolygu hyn yn agosach at yr amser i asesu a fyddai angen y cymorth ychwanegol o hyd.

Amcangyfrifiwyd yr arbedion hyn yn seiliedig ar ragamcanion presennol ar gyfer y niferoedd a fydd yn y ddwy ffrwd. Bydd yr arbedion gwirioneddol a gaiff eu gwireddu yn dibynnu ar niferoedd gwirioneddol bob blwyddyn ac nid oes amcangyfrifon wedi'u gwneud mewn perthynas â chynnydd / gostyngiad yn y niferoedd bob blwyddyn. Mae costau wedi eu seilio ar yr ysgol yn cynnal cyfanswm y niferoedd a ragwelir (y ddwy ffrwd) yn 2025-26 ar gyfer blynyddoedd i ddod wrth i'r newid gael ei weithredu.

**vii) Heb y cynigion, a fyddai'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn wynebu diffygion yn y gyllideb?**

Mae'r rhagamcanion presennol ar gyfer yr ysgol yn dangos gwared amcangyfrifedig o £103k i'w ddwyn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023-24, gan ostwng i ddiffyg rhagamcanol o (£635k) erbyn 31 Mawrth 2027.

**viii) A fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol?**

Y bwriad yw y byddai unrhyw arbedion yn cael eu hailfuddsoddi yn y system ysgolion. Bydd hwn yn benderfyniad a wneir fel rhan o broses pennu cyllideb flynyddol yr awdurdod.

**ix) A fydd yr elw o werthu (derbyniadau cyfalaf) safleoedd segur ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar leoedd mewn ysgolion?**

Ni fyddai newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn arwain at unrhyw derbyniadau cyfalaf.

**20. FFACTORAU I'W HYSTYRIED MEWN PERTHYNAS Â CHYNGION I NEWID CYFRWNG IAITH**

**i) I ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol gan yr awdurdod addysg lleol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn fwy na'r galw neu'n methu â chyrraedd y galw a ragwelir gan rieni am y math hwnnw o ddarpariaeth, a'r cyfraniad y byddai'r cynnig yn ei wneud i unioni'r sefyllfa honno**

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd gan Ysgol Bro Caereinion a'r ysgolion sy'n ei bwydo. Fodd bynnag, bu nifer o alwadau i sefydlu'r math hwn o ddarpariaeth yn yr ardal dros nifer o flynyddoedd, gan awgrymu nad yw'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yn cwrdd â disgwyliadau rhai rhieni a rhanddeiliaid eraill. Byddai gweithredu'r newid arfaethedig i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion yn sicrhau bod y math yma o ddarpariaeth ar gael.

Byddai gweithredu'r newid arfaethedig yn golygu na fyddai addysg drwy gyfrwng y Saesneg ar gael yn Llanfair Caereinion mwyach. Byddai'r newid arfaethedig hefyd yn sicrhau y byddai'r holl ddisgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn gwbl ddwyieithog, gan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y duedd presennol yn nalgyloch Bro Caereinion fu gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Disgwyliad y Cyngor yw y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol, felly'r disgwyliad yw y byddai'r galw am

ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i leihau. Mae'r cynnig i newid cyfrwng iaith yr ysgol yn cyd-fynd efo'r duedd hon.

Pe na bai disgyblion am gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, mae darparwyr cyfrwng Saesneg eraill ar gael yn yr ardal.

**ii) I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (CSCA)**

Mae newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-32 a byddai'n gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu'r targedau a amlinellir yn y CSCA.

Yn benodol, mae'r CSCA yn cynnwys ymrwymiad i 'Sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf 3 ardal ym Mhowys' a'r ymrwymadau canlynol:

*'Cwblhau'r prosesau statudol sydd eu hangen i ddarparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd sy'n bodloni'r diffiniad y categori 'cyfrwng Cymraeg' mewn 2 leoliad arall ym Mhowys. Bydd hyn yn canolbwyntio ar Ysgol Bro Caereinion sydd newydd ei sefydlu ac ardal Ysgol Calon Cymru.'*

Mae'r CSCA hefyd yn cynnwys ymrwymiad i 'Gefnogi ysgolion cynradd dwy ffrwd/cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwmm iaith fel y gallant ddarparu addysg drochi cyfrwng Cymraeg tan eu bod yn saith neu unarddeg oed', ac mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ddalgyloedd, gan gynnwys Llanfair Caereinion.

Yn ogystal, byddai newid categori iaith yr ysgol yn bodloni amcan y Cyngor i 'Symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith' fel yr amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys.

## **21. EFFAITH AR DDARPARIAETH UWCHRADD A CHWECHED DOSBARTH**

**i) P'un a fydd cynigion yn arwain at welliant yng nghyflawniadau addysgol neu hyfforddiant personau sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Caereinion. Yn y pen draw, dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y byddai'r ddarpariaeth hon ar gael, ond ni fyddai'r newid hwn yn dod i rym am nifer o flynyddoedd. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniadau addysgol neu hyfforddiant pobl dros oedran ysgol gorfodol yn Ysgol Bro Caereinion.

**ii) P'un a fydd cynigion yn cyfrannu at ystod briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, tra'n cynnal cyrsiau TGAU, UG/Safon Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed**

Byddai newid categori iaith yr ysgol yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, gan na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y pen draw, rhagwelir y byddai hyn yn galluogi'r ysgol i gynnig ystod well o gyrsiau i ddisgyblion o bob gallu. Byddai'r newid hefyd yn galluogi'r ysgol i ddatblygu gwell trefniadau partneriaeth gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, a fyddai'n gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ymhellach.

**iii) A yw cynigion yn debygol o arwain at fwy o gyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau trafndiaeth i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn fodlon teithio**

Byddai newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn parhau i ddarparu mynediad i ddysgu y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol yn Llanfair Caereinion, felly ni fyddai unrhyw effaith ar drafndiaeth na chost i'r dysgwr.

Ni ragwelir y byddai effaith sylweddol ar gyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol. Yn y tymor hwy, byddai newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn galluogi'r ysgol i ddatblygu gwell trefniadau partneriaeth gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, a fyddai'n gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ymhellach, ac a allai arwain at fwy o gyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol.

**iv) I ba raddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried safbwyntiau rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol**

Yn y tymor byr, ni ragwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn effeithio ar yr ystod o gyrsiau a chymwysterau perthnasol fyddai ar gael. Fodd bynnag, byddai'r newid yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, gan na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y pen draw, rhagwelir y byddai hyn yn galluogi'r ysgol i gynnig ystod well o gyrsiau i ddisgyblion o bob gallu.

Yn y tymor hwy, byddai newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn galluogi'r ysgol i ddatblygu gwell trefniadau partneriaeth gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, a fyddai'n gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ymhellach.

**v) Effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion**

Pe bai'r Cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ddarpariaeth yn parhau i fod ar gael i bobl ifanc 11-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol.

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, gan na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhagwelir y byddai hyn yn cryfhau darpariaeth y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer rhai 11-16 oed, drwy alluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar ddarparu addysg drwy un iaith. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar yr ystod o gyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion.

- vi) Sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn cynnig darpariaeth ôl-16 o ansawdd da, gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddiant preifat**

Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Caereinion. Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar hyfywedd y ddarpariaeth yn Ysgol Bro Caereinion neu darparwyr eraill.

- vii) Sut y gallai cynigion effeithio ar gynaliadwyedd neu wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 rhanbarthol a'r ardal ehangach a hyrwyddo mynediad at argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn y pen draw yn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed yn yr ysgol. Byddai'r newid arfaethedig yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, a allai alluogi ystod well o gyrsiau i gael eu cynnig.

Byddai dysgwyr yn parhau i allu cael mynediad at o leiaf yr un ystod o gyrsiau cyfrwng Cymraeg â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Caereinion a thrwy gynnis Llwybrau Dysgu Gogledd Powys, yn unol â gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

- viii) I ba raddau y bydd cynigion yn darparu manteision ychwanegol i ddysgwyr o'u cymharu â'r status quo ac opsiynau posibl eraill ar gyfer trefniant darpariaeth ôl-16**

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddarparu sgiliau Cymraeg a fydd yn eu cefnogi yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

- ix) Sut y gallai cynigion effeithio ar ddarpariaeth trafndiaeth ddewisol y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol**

Ni fyddai newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn effeithio ar ddarpariaeth cludiant dewisol a ddarperir i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol.

## **22. YSTYRIAETHAU ERAILL**

- i) Effaith ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd**

Barn y Cyngor yw na fyddai gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn gallu cymryd rhan mewn cwricwlwm cwbl ddwyieithog o

ddechrau eu haddysg, gan sicrhau eu bod yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddai gweithredu'r opsiwn a ffeirir hefyd yn golygu y byddai disgyblion yr ardal yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn, sydd ddim ar gael ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Byddai hyn yn sicrhau y byddent yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg fwy cynhwysfawr, a fyddai'n eu galluogi i gadw a datblygu eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu haddysg uwchradd.

## ii) **Tir ac Adeiladau**

### **Cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau yn yr ysgol y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ohoni**

Gan fod y cynnig yn ymwneud â newid categori iaith ac na fyddai'n newid adeiladau'r ysgol, ni fyddai unrhyw effaith ar ansawdd llety i ddisgyblion.

### **Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu ar gyfer plant sy'n cael eu trosglwyddo**

Ni fyddai angen unrhyw waith adeiladu er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r cynnig.

### **Manylion unrhyw drosglwyddiad posibl neu waredu tir neu adeiladau y gallai fod angen iddynt ddigwydd o ganlyniad i'r cynnig**

Ni fyddai unrhyw ofyniad i drosglwyddo neu waredu tir.

### **A yw'r ysgol / ysgolion dan sylw yn ddarostyngedig i unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynnig effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir?**

Nid yw Ysgol Bro Caereinion yn ddarostyngedig i unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol a allai gael eu heffeithio gan weithredu'r cynnig.

## iii) **Llwybrau cerdded i'r ysgol**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai llwybrau cerdded yr un fath â'r llwybrau cerdded presennol i Ysgol Bro Caereinion.

## iv) **Derbyniadau i ysgolion**

Gweinyddir derbyniadau ar gyfer Ysgol Bro Caereinion a'r ysgolion y mae'n bosibl y byddai disgyblion am eu mynychu pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu gan y Cyngor. Pe bai'r cynnig presennol yn cael ei weithredu,



byddai'r derbyniadau ar gyfer yr ysgol yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Cyngor yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor, sydd ar gael ar-lein yn:  
<https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol>

Byddai angen i ddisgyblion newydd sy'n dymuno mynychu'r ysgol neu unrhyw arall, neu unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i ysgolion eraill, wneud cais am le yn unol â threfniadau derbyn y Cyngor.

#### v) **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor ar gyfer 2022-32 yn nodi nod y Cyngor i ddarparu darpariaeth gyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

Byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau y byddai pob disgybl yn Llanfair Caereinion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac y gallai disgyblion yn yr ardal gyfagos gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gyfrannu felly at dargedau'r Cyngor i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a nod Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn dilyn gweithredu'r cynnig yn llawn, byddai gwell cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr trwy fynychu ysgol gwbl Gymraeg, gan gynnwys gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r ysgol.

### 23. **ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB, CYMUNED A'R GYMRAEG**

Mae asesiadau effaith drafft wedi'u cynnal mewn perthynas â'r cynnig. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau yn dilyn y cyfnod ymgynghori i adlewyrchu unrhyw faterion ychwanegol a godwyd. Mae'r asesiadau ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/14817/Ysgol-Bro-Caereinion>

Mae crynodeb o'r asesiadau wedi'i ddarparu isod:

#### i) **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cyfrwng dysgu Ysgol Bro Caereinion yn newid i gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddechrau gyda disgyblion Derbyn a Blwyddyn 7.

Byddai effaith ar ddisgyblion presennol yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y cyfnod cynradd, a fyddai naill ai angen trosglwyddo i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu drosglwyddo i ysgolion eraill.

Fodd bynnag, nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol a gynigir i holl ddisgyblion yr ardal, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchoddedig, trwy ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig.

Nodir y gallai fod pryder am effaith y cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r ysgol, yn cynnwys unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid, a disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol. Er mwyn ymdrin â'r pryder hwn, efallai y bydd angen i'r ysgol ddarparu cymorth gwell i ddisgyblion ag ADY yn ôl yr angen er mwyn diwallu eu hanghenion. Bydd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i godi unrhyw bryderon am yr effaith ar ddisgyblion ag ADY, a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i'r broses symud ymlaen.

Ni ystyrir bod angen addasu'r cynnig i leihau neu ddileu'r effaith.

Ni ystyrir y dylid ystyried y cynnig ar gyfer cael ei symud, oherwydd maint yr effaith y mae'n debygol o'i chael.

## ii) **Effaith ar y gymuned**

Gan fod y cynnig ond yn ymwneud â newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, ni ragwelir y byddai effaith y cynnig ar y gymuned yn sylweddol. Byddai darpariaeth gynradd ac uwchradd yn parhau i fod ar gael yn Llanfair Caereinion, a byddai cyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn parhau i fod ar gael.

Byddai'r effaith fwyaf ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ac ysgolion eraill yn y dalgylch, gan y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ysgol ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2025 ymlaen. Byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol yn dal i allu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ond byddai'r ddarpariaeth yn cael ei diddymu'n raddol erbyn i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 neu is gyrraedd y cyfnod uwchradd, fodd bynnag, byddent yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drwy gydol y cyfnod cynradd.

Cydnabyddir y byddai'r cynnig yn arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg.

## iii) **Effaith ar y Gymraeg**

Byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, oherwydd ymhen amser, byddai'n sicrhau y byddai pob disgybl yn nalgylch Llanfair Caereinion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, a chyfrannu at Strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn

2050. Byddai hefyd yn darparu mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dynodedig yn yr ardal, sydd ddim ar gael ar hyn o bryd, a fyddai'n cwrdd â dyheadau CSCA y Cyngor.

## **RHAN D – MANYLION YMGYNGHORI**

### **Gyda phwy fyddwn ni'n ymgynghori?**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Bro Caereinion
- Llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion
- Staff at Ysgol Bro Caereinion
- Rhieni disgyblion sy'n mynychu pob ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Bro Caereinion
- Disgyblion Ysgol Bro Caereinion a phob ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Bro Caereinion
- Ysgolion eraill a allai gael eu heffeithio
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig Rhufeinig
- Gweinidog Addysg Cymru
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Cyngorwyr Lleol Powys
- Cyngorau Tref a Chymuned yn yr ardal leol
- Aelod o'r Senedd dros Sir Drefaldwyn ac Aelodau rhanbarthol y Senedd dros yr ardal
- Yr Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn
- Estyn
- Undebau staff ac addysgu
- Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys
- Darparwyr meithrinfeydd yn yr ardal leol
- Mudiad Meithrin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys
- Coleg NPTC
- Comisiynydd y Gymraeg

Cynhelir ymgynghoriad â disgyblion yn unol â safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc Cymru<sup>5</sup>.

### **Y cyfnod ymgynghori**

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau 19 Hydref 2023 a bydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2023.

### **Y broses statudol**

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2018. Mae'r broses wedi'i chrynhofu isod:

---

<sup>5</sup> <https://gov.wales/children-and-young-peoples-national-participation-standards>

## **i) Ymgynghoriad**

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 19 Hydref 2023 a bydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2023. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio a'i rannu gyda rhanddeiliaid.

Mae'n bwysig nodi na fydd ymatebion a wneir i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a bydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna ddiwedd y cynnig hwn.

Rhagwelir y bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn gynnar yn 2024.

## **ii) Rhybudd statudol**

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi ar ôl cyfarfod y Cabinet. Yna byddai cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

Pe byddai gwrthwynebiadau, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt cyn diwedd 7 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod dyfarniad yr awdurdod lleol. Dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod y cyfnod rhybudd statudol fydd yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fyddai sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Pe bai rhanddeiliaid yn dymuno i'w hymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau, byddai angen eu hailgyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor, y byddent yn ei ystyried ynghyd â'r adroddiad gwrthwynebiadau, er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

Rhagwelir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud erbyn mis Mawrth / Ebrill 2024.

## **iii) Gweithredu**

Pe bai Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, byddai'n cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn y rhybudd statudol neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedi hynny.

## **Sut i ymateb i'r ymgynghoriad**

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae fersiwn ar-lein hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/14817/Ysgol-Bro-Caereinion>

Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ac ymatebion ysgrifenedig eraill i'r cyfeiriad canlynol:

*Tîm Trawsnewid Addysg, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG*

*E-bost: [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)*

Dylid derbyn pob gohebiaeth erbyn **30 Tachwedd 2023**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynnig hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trawsnewid Addysg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, neu drwy ffonio (01686) 611553.

## ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL

Mae gwybodaeth am ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion wedi'i ddarparu isod.

Yn ogystal ag Ysgol Bro Caereinion, mae'n bosib y gallai'r newid effeithio ar ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal leol, gan gynnwys Ysgol Uwchradd y Trallwng, Ysgol Llanfyllin, Ysgol Uwchradd Y Drenewydd ac Ysgol Uwchradd Llanidloes, gan y gallent naill ai dderbyn neu golli disgyblion.

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion cynradd yn ardal Llanfair Caereinion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg arall. Y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg agosaf fyddai Ysgol Meifod, Ysgol Rhiw Bechan, ac Ysgol G.G. Aberriw.

### 1. Ysgol Bro Caereinion

#### Gwybodaeth gyffredinol

	Math o Ysgol	Categori Iaith	Nifer Derbyn <sup>6</sup>	Ysgol Wledig? <sup>7</sup>
<b>Ysgol Bro Caereinion</b>	Ysgol Gynradd Gymunedol (Bob-oed)  Adeilad ysgol sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys	Dwy ffrwd	Cyfnod cynradd: 27  Cyfnod uwchradd: 114	Na

#### Nifer y disgyblion

##### i) Nifer disgyblion presennol<sup>8</sup>

	R	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	12	7	11	7	14	11	12	42	35	30	36	40	14	21	292
<b>cyfrwng Saesneg</b>	0	7	6	8	5	8	16	25	43	45	35	38	13	8	257
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>	<b>14</b>	<b>17</b>	<b>15</b>	<b>19</b>	<b>19</b>	<b>28</b>	<b>67</b>	<b>78</b>	<b>75</b>	<b>71</b>	<b>78</b>	<b>27</b>	<b>29</b>	<b>549</b>

<sup>6</sup> Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn Powys 2024-25

<sup>7</sup> Mae Atodiad F o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)

(<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>) yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig' y mae'r 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddi.

<sup>8</sup> Darparwyd gan yr ysgol – 6 Medi 2023

ii) Niferoedd disgyblion hanesyddol<sup>9</sup>

	lon. 2016	lon. 2017	lon. 2018	lon. 2019	lon. 2020	lon. 2021	lon. 2022	lon. 2023
<b>Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion</b>	195	185	174	173	166	162	156	N/A
<b>Ysgol Uwchradd Caereinion</b>	494	495	487	456	447	459	440	N/A
<b>Ysgol Bro Caereinion</b>	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	572
<b>Cyfanswm</b>	<b>689</b>	<b>680</b>	<b>661</b>	<b>629</b>	<b>613</b>	<b>621</b>	<b>596</b>	<b>572</b>

iii) Niferoedd disgyblion a ragwelir<sup>10</sup>

	lon. 2023	lon. 2024	lon. 2025	lon. 2026	lon. 2027
<b>Cyfnod Cynradd Ysgol Bro Caereinion</b>	142	136	123	121	114
<b>Cyfnod Uwchradd Ysgol Bro Caereinion</b>	429	418	401	393	388
<b>Cyfanswm</b>	<b>571</b>	<b>554</b>	<b>524</b>	<b>514</b>	<b>502</b>

Mae'r niferoedd hyn a ragwelir yn seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Bro Caereinion ac nid ydynt yn adlewyrchu unrhyw newidiadau pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, oherwydd ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fyddai'r disgyblion yn dewis trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall, neu os byddai cynnydd yn y galw am ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol.

**Capasiti a Chyflwr Adeiladu**

i) **Capasiti**

	Capasiti cyfredol	Wedi'i lenwi ar hyn o bryd	Lleoedd gwag
<b>Cyfnod Cynradd Ysgol Bro Caereinion</b>	195	124 (63.6%)	71 (36.4%)

<sup>9</sup> PLASC

<sup>10</sup> Rhagamcanion Gwasanaeth Ysgolion Powys yn seiliedig ar gyfraddau PLASC a Genedigaethau. Yn seiliedig ar PLASC 2022 gan nad yw'r amcanion yn seiliedig ar PLASC 2023 ar gael eto.



<b>Cyfnod Uwchradd</b> Ysgol Bro Caereinion	603	425 (70.5%)	178 (29.5%)
--	-----	-------------	-------------

ii) **Cyflwr adeiladau**

	<b>Cyflwr</b>	<b>Addasrwydd</b>	<b>Mynediad i neuadd ar y safle</b>
<b>Cyfnod Cynradd</b> Ysgol Bro Caereinion	C Gwael	B Da	le
<b>Cyfnod Uwchradd</b> Ysgol Bro Caereinion	C Gwael	C Gwael	le

**Ansawdd a safonau addysg**

i) **Estyn**

Does dim arolwg Estyn o Ysgol Bro Caereinion wedi bod ers sefydlu'r ysgol.

Dyma ganlyniadau arolygiadau diwethaf Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion:

	<b>Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion</b>
<b>Dyddiad yr arolygiad</b>	Ionawr 2018
<b>Safonau</b>	Da
<b>Lles ac agweddau tuag at ddysgu</b>	Da
<b>Profiadau dysgu ac addysgu</b>	Digonol
<b>Gofal, Cymorth ac Arweiniad</b>	Da
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	Da
<b>Canlyniad</b>	Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

	<b>Ysgol Uwchradd Caereinion</b>
<b>Dyddiad yr arolygiad</b>	Tachwedd 2013
<b>Safonau</b>	Digonol
<b>Lles</b>	Digonol
<b>Profiadau dysgu</b>	Da
<b>Addysgu</b>	Digonol
<b>Gofal, Cymorth ac Arweiniad</b>	Da
<b>Amgylchedd dysgu</b>	Da

<b>Arweinyddiaeth</b>	Digonol
<b>Gwella ansawdd</b>	Digonol
<b>Gweithio mewn partneriaeth</b>	Da
<b>Rheoli adnoddau</b>	Digonol
<b>Canlyniad</b>	<p>Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.</p> <p><b>Canlyniad arolwg Estyn 2018:</b></p> <p>Dyfarnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf, ac fe'i tynnwyd oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen eu gwella'n sylweddol.</p>

### Gwybodaeth am gydraddoldeb<sup>11</sup>

#### i) Hunaniaeth genedlaethol

